CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**Cyngor Llyfrau Cymru**

Adran Datblygu Cyhoeddi

---

## Gwahoddiad i Dendro

**Grantiau Cyhoeddi Saesneg**
**CYLCHGRAWN LLENYDDOL NEWYDD 2024–2028**

Gwahoddir ceisiadau am gytundeb pedair blynedd ar gyfer cyllid o dan y Grant Cylchgronau Diwylliannol.

Mae'r cynllun eisoes yn cefnogi nifer o gylchgronau diwylliannol sy'n cynnwys ysgrifennu da, newyddiaduraeth o ansawdd uchel, adolygiadau a thrafod ar ystod o bynciau.

Mae’r cyfle tendro newydd hwn yn ceisio dyfarnu cyllid yn benodol i un cylchgrawn llenyddol Saesneg newydd gyda ffocws cryf ar ffuglen ac ysgrifennu ffeithiol greadigol, sy’n cynnwys adolygiadau a sylwebaeth gadarn, ac sydd â model busnes cadarn y gellid ei addasu, yn greiddiol iddo.

Ar gyfer ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer y rhestr fer, mae swm o hyd at £5,000 ar gael er mwyn helpu i dalu costau busnes a chynhyrchu i baratoi sampl o rifyn ar gyfer cam olaf y broses dendro.

## Cymhwysedd a Chymhwyster

*Pwy all wneud cais*
**Dim ond cwmnïau cyhoeddi yng Nghymru all wneud cais.**

Sylwer: rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael cyfrif banc ar wahân ar gyfer y cylchgrawn cyn y gellir talu’r rhandaliad grant cyntaf a bydd angen iddynt ddod yn gorff corfforedig cyfreithiol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Nid** yw’r cynllun yn ariannu:

- cylchgronau bach sy'n debygol o werthu dim mwy na 400 copi (gweler canllawiau Cynllun Cylchgronau Bach Saesneg);
- cylchgronau addysgol neu gyfnodolion academaidd;
- cylchgronau a gyhoeddir gan fudiadau a chymdeithasau, oni bai bod ganddynt apêl y tu hwnt i aelodaeth y sefydliadau;
- cylchgronau o ddiddordeb lleol.

## Y Grant

- Mae swm o £80,000 y flwyddyn, am bedair blynedd, wedi'i neilltuo ar gyfer y tendr newydd hwn (wedi'i dalu *pro rata* am y flwyddyn gyntaf, o fis Hydref 2024 ymlaen).

- Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu ar gyfer un cylchgrawn llenyddol o ansawdd da sydd wedi'i ysgrifennu'n ddifyr ac sy'n ymdrin â'r meysydd canlynol: ffuglen fer, ffeithiol greadigol, adolygiadau a beirniadaeth lenyddol.

- Yn yr un modd â phob cylchgrawn a ariennir o dan y pennawd hwn, rhaid i'r teitl newydd hwn gynnwys adolygiadau o lyfrau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru gyfan.

- Erbyn diwedd y cyfnod ariannu, byddwn yn anelu at gyrraedd cymhareb gerio o hyd at 2:1 (h.y. cyfran o incwm grant i incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill).

- Gellir cyflwyno cylchgronau cymwys ar sawl platfform, ond mae angen elfen brint.

- Yr isafswm cylchrediad cyfartalog fesul rhifyn ar gyfer cylchgrawn aml-ffocws yw 700 ar gyfer blwyddyn gyntaf y grant, gan godi i 1,000 erbyn diwedd y cyfnod ariannu.

- Cynigir y grant fel cytundeb pedair blynedd, yn amodol ar adolygiad blynyddol boddhaol o ddeiliad y drwydded, ac yn amodol ar barhad cyllid gan Lywodraeth Cymru. Yn amodol ar gyllid, bydd y cytundeb yn mynd allan i dendr unwaith eto, ar ddiwedd y pedair blynedd.

## Meini Prawf a Blaenoriaethau Asesu

Rhoddir ystyriaeth arbennig i'r materion canlynol wrth asesu:

- Gwneud cyfraniad sylweddol i ddiwylliant Cymru

- Ymrwymiad i ysgrifennu deniadol o ansawdd da, trafodaeth wybodus a safonau golygyddol uchel

- Ymrwymiad i roi llwyfan i lenyddiaeth cyfrwng Saesneg o Gymru trwy gyfuniad cadarn o gynhyrchu ysgrifennu newydd yn ogystal â meithrin adolygiadau a beirniadaeth

- Pwyslais ar werthoedd dylunio a chynhyrchu o ansawdd uchel, yn unol â safonau cylchgronau cyfrwng Saesneg cyfoes

- Cynllun busnes cadarn sy'n cynnwys rhagolygon gwerthiant, modelau dosbarthu yng Nghymru a thu hwnt, rheoli tanysgrifiadau, refeniw hysbysebu, a chynlluniau codi incwm eraill i ddenu cyllid a nawdd

- Polisïau golygyddol penodol sy'n adlewyrchu ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb, a hygyrchedd mewn cyhoeddi, yn unol â chynllun strategol y Cyngor Llyfrau – h.y. rhaid i ymgeiswyr weithredu polisi ffurfiol ar gyfer comisiynu llenorion heb gynrychiolaeth ddigonol, sicrhau amrywiaeth o ran aelodaeth y Bwrdd, ac ehangu'r ystod o unigolion sy'n cyfrannu at gynhyrchu

- Ymrwymiad amlwg i ddatblygu sgiliau ac iechyd yr ecosystem gyhoeddi yng Nghymru (e.e., trwy weithredu cynlluniau megis aelodaeth bwrdd ‘dros dro’), cynlluniau mentora, datblygu staff a chyfleoedd mewn dylunio, golygu, ac fel awduron gwadd)

- Gwerth am arian (gan gynnwys rheolaeth ddarbodus ac effeithlon o gostau a’r grant rhagamcanol am bob copi a werthir)

- Y gallu i gadw at amserlen gyhoeddi

- Marchnata a chyhoeddusrwydd, gyda phwyslais ar gyrraedd a datblygu darllenwyr

- Profiad a sgiliau presennol yr ymgeisydd mewn cyhoeddi cylchgronau

## Ceisiadau

Sylwch mai proses ymgeisio dau gam yw hon. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng Ngham 1 yn cael eu gwahodd i gyflwyno dogfennau ychwanegol ar gyfer Cam 2, yn ogystal â mynychu cyfweliad personol.

### Cam 1:

Yn ystod Cam 1 mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais fer (ar gael gyda'r ddogfen hon). Rhaid dychwelyd hon i'r Adran Datblygu Cyhoeddi trwy e-bost (cyfeiriad ar waelod y ddogfen hon) erbyn **5pm ar 15 EBRILL 2024**. Bydd unrhyw gwestiynau neu bryderon arwyddocaol yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr cyn cael eu gwahodd i gyflwyno cais llawn.

### Cam 2:

Dylai ceisiadau gynnwys y canlynol:

1) **Adroddiad naratif** gydag adrannau ac isadrannau fel a ganlyn:
*Sylwer: Os yw'r un wybodaeth yn berthnasol i sawl un o'r penawdau, nid oes angen i chi ailadrodd gwybodaeth a ddarparwyd mewn man arall yn yr adroddiad naratif. Gallwch hepgor pennawd os ydych eisoes wedi darparu'r wybodaeth hon.*

### Cynlluniau a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol

a. Polisi a chynlluniau golygyddol – gall hyn gynnwys proses a gweithdrefn olygyddol, strategaethau comisiynu, cydbwysedd rhwng ysgrifennu newydd, adolygiadau, a beirniadaeth, ac ati
b. Cynhyrchu a dylunio – gall hyn gwmpasu print a digidol
c. Rhestr o'r bobl fydd yn ymwneud â’r cylchgrawn, gan gynnwys bywgraffiadau cryno a phrofiad
ch. Strategaeth gwerthu a dosbarthu
d. Polisi a chynlluniau marchnata a chyhoeddusrwydd
dd. Cynlluniau ar gyfer datblygu gwefannau a datblygu fformatau digidol
e. Rhagamcanion ariannol, gan gynnwys cyllid/nawdd posibl arall

2) **Ffigurau gwerthiant a rhagolygon** (defnyddiwch y ffurflen a ddarperir)

3) **Cyllidebau**
   *i.* Rhagamcanion cyllideb blwyddyn (defnyddiwch y ffurflen a ddarperir)
   *ii.* Cynllun cyllideb pedair blynedd

4) **Strwythur y cwmni** disgrifiwch eich strwythur cwmni arfaethedig, neu trafodwch fodelau neu gylchgronau penodol y byddech am i'ch strwythur eu hefelychu.

5) **Rhifynnau Sampl**
   Braslun llawn o'r rhifyn cyntaf, gan gynnwys dyluniad y clawr; golygyddol enghreifftiol, os yw'n berthnasol; tudalen gynnwys, a 2-3 erthygl enghreifftiol (gan gynnwys delweddau, os yn berthnasol) yn dangos dyluniad mewnol, cynllun a phapur.

   Dylid cyflwyno cynlluniau amlinellol ar gyfer y tri rhifyn dilynol hefyd.

6) **Cyfweliad personol gyda'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg**
   Bydd y panel cyfweld yn cynnwys 8 aelod o'r is-bwyllgor a dau aelod allanol sy'n arbenigwyr yn y diwydiant, ynghyd â sawl aelod o staff y Cyngor Llyfrau ar gyfer dibenion gweinyddol (darperir enwau pawb fydd yn bresennol yn nes at ddyddiad y cyfweliad).

***Cynhelir y cyfweliadau yn Aberystwyth, yn Sefydliad Pantyfedwen. Os oes gennych unrhyw ofynion neu gwestiynau ynghylch hygyrchedd, rhowch wybod i ni.***

## Fformat:

Dylech gyflwyno holl ddeunydd Cam 1 **erbyn 15 Ebrill 2024** yn y fformatau canlynol:

> Drwy e-bost yn Word ac Excel i English.Grants@books.wales (gyda'r llinell pwnc 'Cais Cylchgrawn Diwylliannol Newydd')

## Amserlen:

Dyddiad cau ar gyfer ffurflen gais Cam 1: 15 Ebrill 2024
Hysbysu ynghylch y rhestr fer: cyn neu ar ôl 22 Ebrill 2024
Dyddiad Cau Cais Llawn: 5 Gorffennaf 2024
Cyfweliadau: 23–24 Gorffennaf 2024
Hysbysiad o benderfyniadau: Awst 2024
Cefnogaeth ariannol i ddechrau: Hydref 2024

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymhwysedd neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â
Dr Ashley Owen,
Adran Datblygu Cyhoeddi,
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 2JB
Ffôn: 01970 629555
E-bost: English.Grants@books.wales

## Cwynion

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd rydym yn ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am gopi o'n Proses Gwyno. Sylwch mai dim ond os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn ein proses amlinellol wrth ymdrin â'ch cais y gallwch gyflwyno cwyn, a rhaid derbyn y gŵyn o fewn 10 diwrnod i'r weithred neu'r penderfyniad y cyfeirir atynt yn y gŵyn. Ni allwch ddefnyddio'r broses gwyno i apelio yn erbyn penderfyniad yr is-bwyllgor.

## Talu'r Grantiau

Fel arfer, telir grantiau cylchgronau ar ddechrau pob chwarter mewn symiau cyfartal. Gellir hawlio'r grant trwy anfon pedwar copi o bob rhifyn i'r Adran Datblygu Cyhoeddi neu trwy hysbysu'r Adran Datblygu bod rhifyn digidol newydd dar gael a sicrhau mynediad i'r rhifyn hwnnw.

## Monitro a Gwerthuso'r Gwaith a Gefnogwyd

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gofyn am ffigurau gwerthiant ac adroddiadau eraill yn flynyddol. Bydd hefyd yn cynnal cyfarfod â phob deilydd trwydded er mwyn adolygu eu perfformiad a'u targedau.